Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

**Consortiwm GwE**
**Bryn Eirias**
**Ffordd Abergele**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL29 8BY**

**Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Canlyniad yr ymweliad

### Cyflwyniad

Yn Ebrill 2016, arolygodd Estyn y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan y GWE. Ym mis Hydref 2017, ymwelodd Estyn â GWE i adolygu'r cynnydd a wnaed gan y consortiwm mewn perthynas â'r argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad.

Wrth arfarnu cynnydd ar gyfer pob argymhelliad, fe wnaethom ystyried y canlynol:

- A yw'r consortiwm wedi deall y rhesymau y tu ôl i'r argymhelliad?
- A yw'r consortiwm wedi cymryd camau rhesymol i fynd i'r afael â'r argymhelliad yn llwyddiannus, gan ystyried ei fan cychwyn, yr amser rhwng arolygiad ac ymweliad dilynol, yn ogystal â chymhlethdod y materion i fynd i'r afael â nhw?
- A yw'r consortiwm wedi cael cymorth priodol i fynd i'r afael â'r argymhellion gan ei awdurdodau lleol partner?
- A yw'r consortiwm wedi sicrhau bod newidiadau sy'n deillio o'i gynnydd o ran mynd i'r afael â phob argymhelliad wedi cael eu hymgorffori ddigon yn ei arferion gweithio i sicrhau gwelliant cynaledig?

Wrth lunio barn am y cynnydd yn erbyn yr argymhellion, bu'r tîm monitro yn ystyried y tueddiadau mewn perfformiad dros y pum mlynedd ddiwethaf fel cyd-destun ar gyfer arfarnu effaith ei waith mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na ellir priodoli deilliannau yn gyfan gwbl i waith y consortiwm rhanbarthol am fod gan bartneriaid eraill yn y system rôl bwysig hefyd.

Bu'r tîm monitro yn ystyried ystod o dystiolaeth, gan gynnwys cynllunio busnes y consortiwm, arfarniadau, adroddiadau ymgynghorwyr her, gweithdrefnau gosod targedau, asesiadau risg a safbwyntiau penaethiaid.

Nid yw Estyn yn bwriadu cynnal unrhyw ymweliadau dilynol pellach â GWE. Bydd unrhyw feysydd i'w gwella sy'n weddill yn cael eu monitro'n anffurfiol gan arolygydd cyswllt rhanbarthol Estyn ac arolygwyr cyswllt perthnasol yr awdurdod lleol, a'u hystyried yn ystod arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn y dyfodol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

Ers yr arolygiad craidd, mae GwE wedi cynnal adolygiad dwys a chynhwysfawr o'i waith a'i effaith ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth. Mae'r gweithredu buan yn dilyn y gwaith hwn wedi sicrhau bod gan randdeiliad ar bob lefel hyder cynyddol yng ngallu GwE i ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol. Gwnaethpwyd newidiadau sylweddol i strwythurau rheolaethol i ddosrannu'r arweinyddiaeth a sicrhau llinellau atebolrwydd clir. Mae arweinyddiaeth gref a phendant y rheolwr gyfarwyddwr wedi bod yn ffactor allweddol o ran sicrhau gwelliannau arwyddocaol yn ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion ers yr arolygiad.

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn defnyddio data, gosod targedau a gweithdrefnau olrhain yn fwy effeithiol i herio a chefnogi ysgolion er mwyn gwella perfformiad yr holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae GwE wedi sicrhau bod dyraniad mwy cymesur o adnoddau ac amser i gydweithio ag ysgolion uwchradd nag oedd ar adeg yr arolygiad craidd. Mae arweinwyr wedi ystyried barn rhanddeiliaid yn briodol ac wedi sefydlu diwylliant mwy cefnogol a chynhyrchiol. Lle'r oedd ymgynghorwyr her, yn flaenorol, yn hyfedr wrth herio ysgolion ynghylch meysydd yr oedd angen iddynt eu gwella, nid oeddent yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddarparu'r cymorth i alluogi hyn i ddigwydd. Mae GwE wedi rhoi ffocws o'r newydd ar rôl yr ymgynghorwyr her a'u hail-frandio fel ymgynghorwyr cefnogi gwelliant. Gwneir defnydd ystyrlon o arbenigedd ac arbenigeddau'r ymgynghorwyr cefnogi gwelliant. Maent yn deall eu rolau'n dda ac mae cylch gwaith clir gan bawb. O ganlyniad, mae gwell cydbwysedd rhwng lefel yr her a chefnogaeth i ysgolion a rhoddir pwyslais ar gyd-drefnu a chydweithio. Lle mae angen lefel uwch o her er mwyn codi safonau, mae GwE yn gweithredu'n gyflym ac yn bwrpasol. Mae'r gweithredu newydd hyn wedi arwain at welliannau cadarn mewn safonau yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 ar draws y rhanbarth ers adeg yr arolygiad craidd. Un enghraifft dda o hyn yw'r gefnogaeth a roddwyd i adran Saesneg mewn ysgol sydd mewn categori statudol a gyfrannodd at welliant sylweddol yn neilliannau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4

Mae GwE wedi cymryd camau cadarnhaol iawn i wella systemau trin a thrafod data o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 4. Mae'r system soffistigedig hon yn cynnwys data cynhwysfawr ar gyfer pob cyfnod allweddol ac mae swyddogion GwE yn ei ddadansoddi'n bwrpasol ar gyfer ysgolion unigol, sector, awdurdodau lleol a'r rhanbarth. Mae'r drefn hon wedi arwain at well cysondeb yn y math o ddata sy'n cael ei ystyried a'r ffordd y mae'n cael ei ddefnyddio. O ganlyniad, gwneir defnydd llawer mwy effeithiol o ddata ar gyfer herio a threfnu cefnogaeth benodol i ysgolion nag a welwyd adeg yr arolygiad.

Mae GwE, ar y cyd ag awdurdodau lleol a'r ysgolion, wedi tynhau a chysoni'r drefn o osod targedau. Mae targedau'r rhanbarth yn deillio'n uniongyrchol o dargedau disgyblion unigol. Rhoddir canllawiau clir iawn i ysgolion ar sut i osod targedau sy'n ystyrlon a realistig. O ganlyniad, mae targedau'r sector gynradd a chyfnod allweddol 3 yn agos at berfformiad ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Mae GwE yn rhoi arweinaid pendant i ysgolion ar olrhain deilliannau yn erbyn targedau. Bydd ysgolion yn cyflwyno rhagfynegiadau o berfformiad yn rheolaidd i'r consortiwm ac mae arweinwyr ar bob lefel yn cael mynediad at y data hwn. Gwneir defnydd cynhyrchiol o'r wybodaeth hon i gynnal trafodaethau manwl yn yr ysgolion ac i lunio cymorth pwrpasol i reolwyr ac adrannau unigol. Yn ogystal, mae'n rhoi trosolwg lefel uchel o berfformiad ysgolion a grwpiau o ddisgyblion ar draws GwE. Mae hyn yn caniatau i arweinwyr sicrhau ansawdd gwaith GwE wrth wella ysgolion.

Fel rhan o'r dull diwygiedig o gydweithio ag ysgolion, mae GwE yn llunio rhaglen cymorth bwrpasol i bob un ysgol, waeth beth fo'u hangen. Bellach, mae ysgolion yn cael llawer iawn o fewnbwn wrth lunio'r rhaglenni cymorth. Mae hyn yn golygu bod

cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu meysydd ehangach neu i dargedu materion penodol yn dilyn arfarniadau penaethiaid ysgolion,  er enghraifft cynyddu capasiti rheolwyr canol neu wella ansawdd y ddarpariaeth yn y chweched dosbarth.

Mae ansawdd gwaith yr ymgynghorwyr cefnogi gwelliant pynciau craidd yn rhagorol. Maent yn ymateb yn synhwyrol, ac yn aml yn greadigol iawn, i anghenion ysgolion unigol ac yn darparu arweiniad clir a buddiol iawn i arweinwyr pynciau craidd ar draws y rhanbarth.  Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau mewn ysgolion penodol yn ogystal â chryfhau a chysoni ansawdd cynllunio, dysgu ac addysgu ar draws y rhanbarth yng nghyfnod allweddol 4.

Mae GwE yn ymateb yn gadarnhaol i geisiadau gan awdurdodau lleol i gynnal adolygiadau mewnol dwys mewn ysgolion unigol.  Mae buddsoddiad helaeth mewn adnoddau dynol ac amser yn sicrhau bod ysgolion yn derbyn adolygiadau cynhwysfawr a theg.  Mae adroddiadau sy'n deillio o'r adolygiadau hyn yn drylwyr ac yn cynnwys argymhellion pwrpasol.

Mae'r gweithredu buan ac uniongyrchol i wella ansawdd y gwasanaeth rhanbarthol ers adeg yr arolygiad craidd wedi arwain at welliannau sylweddol mewn safonau yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.  Yn ogystal, mae'r ymyraethau wedi'u targedu at yr ysgolion hynny yr oedd angen gweithredu brys ynddynt wedi llwyddo i godi safonau mewn amser byr yn y rhan fwyaf o achosion.  Er y gwelliannau amlwg yn ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth y gwasanaeth gwella ysgolion, mae'n rhy fuan i fesur effaith hyn yn gyffredinol ar draws y rhanbarth yng nghyfnod allweddol 4.

**Argymhelliad 2:  Gwella ansawdd arfarnu wrth gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad, mae GwE wedi gwneud nifer o welliannau i'r modd y maent yn arfarnu ansawdd y gwasanaeth gwella ysgolion.  Mae'r fframwaith cynllunio trefnus yn sicrhau bod atebolrwydd a'r prosesau monitro fel ei gilydd yn gydlynol.  Cryfder y fframwaith gynllunio yw ei fod yn syml ac yn ddealladwy gan bawb.  Mae hyn yn golygu bod staff GwE yn glir iawn ynglŷn â'u cyfrifoldebau a'r disgwyliadau sydd arnynt o ran cyflawni eu rolau.

Mae cynlluniau busnes ar gyfer y ffrydiau gwaith gwahanol yn dilyn trefn gyson.  Mae rheolwyr yn olrhain ac yn arfarnu cynnydd yn erbyn targedau sydd yn y cynlluniau busnes yn rheolaidd ac yn adrodd i'r byrddau perthnasol yn unol â'r amserlenni.  Maent yn defnyddio tystiolaeth gyfredol i addasu'r gweithgaredd pan fo'n briodol gan ymateb yn gyflym i'r anghenion sy'n codi.

Yn dilyn gweithgaredd hyfforddiant neu ymweliad ysgol, bydd ymgynghorwyr cefnogi gwelliant yn cyflwyno adroddiad sy'n nodi cryfder a meysydd gwella.  Yn gyffredinol, mae'r rhain yn arfarnol a phriodol ac yn pwysleisio effaith gweithgareddau ar ddeilliannau disgyblion, boed hynny yn ddeilliannau ansoddol neu feintiol.  Mae hyn yn caniatáu arweinwyr GwE i gywain tystiolaeth uniongyrchol gref o effaith ac ansawdd gweithgareddau gwella ysgolion, ac i ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn adnabod arfer dda neu ymateb i bryderon.

Er mwyn adeiladu cymwyseddau a chapasiti staff, mae GwE yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor ar brosiect 'Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith' i ddatblygu sustemau a methodoleg arfarnu. Mae hyn yn galluogi staff GwE ac ysgolion y rhanbarth i ddechrau arfarnu effaith prosiectau mawr a chymhleth mewn modd priodol. Mae'r gwaith hwn hefyd yn rhan o weithredu ehangach GwE i ddatblygu gweithlu dysgu proffesiynol sy'n ymwneud yn fwyfwy â phrosiectau ymchwilweithredol. Yn ogystal, mae'n adlewyrchu dyhead GwE i ddatblygu fel sefydliad dysgu sy'n dysgu o'r gorffennol ac yn edrych ar ffyrdd i arloesi i'r dyfodol.

**Argymhelliad 3: Gwella trylwyrdeb y trefniadau ar gyfer nodi a rheoli risg**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Bellach, mae GwE yn defnyddio proses glir a chytûn ar gyfer adnabod a rheoli risgiau. Mae hyn yn cynnwys cofrestr risg ddefnyddiol, gyda chyfeiriadau priodol at effaith bosibl y prif risgiau a nodwyd ar gyllid a llywodraethu, ac ar gyflawni blaenoriaethau'r cynlluniau busnes. Mae'r cynlluniau busnes ar wahanol lefelau o fewn y consortiwm bellach yn cynnwys cyfeiriadau synhwyrol at y risgiau. O ganlyniad, mae llawer gwell cysylltiad rhwng asesiadau risg a chynlluniau gwella ac amcanion strategol y consortiwm.

Mae GwE wedi datblygu diwylliant cryfach o arfarnu risg. Mae'r risgiau'n cael eu hystyried a'u harfarnu'n systematig, yn deg ac yn gymesur gan y cydbwyllgor a byrddau perthnasol eraill. Mae ystyriaethau priodol yn eu lle er mwyn lleihau effaith bosibl y risgiau. Erbyn hyn, mae'r cydbwyllgor yn defnyddio eu hadnabyddiaeth o risgiau yn fwy systematig er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau ac ystyried gwersi a ddysgwyd. O ganlyniad, mae rheolaeth strategol well o fewn GwE i warchod eu buddiannau a herio materion o bryder. Er hynny, mae'n rhy fuan i weld pa mor effeithiol yw'r camau lliniaru sydd wedi eu hadnabod ar gyfer llawer o'r risgiau.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddo clir a bod cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro'n effeithiol**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae GwE wedi sicrhau trefniadau llawer mwy cadarn ar gyfer cynllunio ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddangosyddion perfformiad i fonitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir ac i gymryd camau unioni pan fo'n briodol.

Mae GwE wedi gosod amcanion heriol a mesuradwy erbyn 2020 i wella safonau, y cwricwlwm, asesu, arweinyddiaeth, lles ac addysgu. Cefnogir y rain gan gynlluniau busnes manwl ac mae trywyddau amlwg yn rhedeg drwy haenau amrywiol y cynlluniau. Mae'r cynlluniau gweithredu yn cynnwys amcanion penodol, targedau y gellir eu mesur a'u cyflawni, gan gynnwys cerrig milltir a chostau. Mae cyfrifoldebau wedi'u dyrannu i dimau neu unigolion yn glir ac maent yn cynnwys ffynonellau ariannu priodol. Mae GwE yn cynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r flwyddyn bresennol yn synhwyrol, gan sicrhau dull strategol a chynaliadwy o wella ysgolion.

Mae'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau yn cael ei arfarnu'n rheolaidd ar wahanol lefelau. Mae'r GwE wedi cryfhau'r llinellau atebolrwydd ar bob lefel o gynllunio ar draws y rhanbarth. Er enghraifft, drwy'r fframwaith atebolrwydd clir, mae ymgynghorwyr cefnogi gwelliant yn adolygu eu cynlluniau bob chwarter, ac yn arfarnu cynnydd ac effaith yn briodol. Mae hyn yn cynnwys olrhain y gwariant yn erbyn deilliannau'r cynlluniau. Mae trefn glir ble mae uwch arweinwyr yn monitro'r gweithredu ac arfarnu'r cynlluniau ac mae'r cydbwyllgor a byrddau perthnasol eraill yn arfarnu cynnydd a herio perfformiad yn briodol.

Er bod y broses o reoli perfformiad yn gymharol newydd, mae enghreifftiau da ble mae'r cynllunio, y blaenoriaethau a'r gweithredoedd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth mewn ysgolion, er enghraifft y cynllunio ar gyfer cynorthwyo ysgolion i baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

**Argymhelliad 5: Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cydbwyllgor**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad, mae awdurdodau addysg gogledd Cymru wedi naill ai ddiddymu'r rhwydweithiau rhanbarthol neu, yng nghyd-destun rhwydwaith y Gymraeg, ei gynnwys o dan adain rheolaeth strategol GwE. Mae'r newid strwythurol yn golygu bod gan benaethiaid a rhanddeiliaid eraill well eglurdeb ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau mewn meysydd pwysig a gwyddant at bwy i droi am gymorth pan fo angen. Yn ogystal, mae eu hatebolrwydd i'r cydbwyllgor yn gwbl glir.

Mae'r newid strwythurol yn golygu bod gan GwE reolaeth strategol ar y meysydd hyn sy'n cynnig mwy o gyfle i hyrwyddo a chefnogi gwelliant cydlynol yn ysgolion y rhanbarth. Enghraifft dda yw'r gwell gefnogaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen ar draws y rhanbarth sydd yn cael effaith gadarnhaol ar wella ansawdd y ddarpariaeth a deiliannau disgyblion.

Mae'r rhwydwaith cefnogi'r Gymraeg yn trafod cynlluniau pellgyrhaeddol ar gyfer cynllunio gweithlu fydd yn bodloni anghenion ieithyddol y rhanbarth i'r dyfodol. Cyd-destun y trafodaethau yw cynlluniau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Er bod y cynllunio a'r trafodaethau yn eu dyddiau cynnar, mae GwE yn awyddus i fwrw ati i chwarae rôl ganolog yn y gwaith hwn.

**Argymhelliad 6: Datblygu fframwaith priodol ar gyfer asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun ariannol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod costau ffrydiau gwaith wedi'u nodi'n llawn.**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae proses cynllunio busnes GwE bellach yn nodi costau pob gweithgaredd o fewn y cynlluniau busnes ar bob lefel, gan gynnwys sut mae grantiau yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r cynllun busnes. Mae'n ofynnol i ddeiliaid cynlluniau busnes werthuso eu defnydd o adnoddau yn chwarterol ac mae proses glir i amlygu pryderon. Mae'r monitro hwn yn sicrhau bod arweinwyr yn deall eu heffeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, cyllid craidd neu gyllid grant. Mae uwch arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o fonitro chwarterol i olrhain cynnydd yn erbyn

blaenoriaethau. Mae deiliaid cynlluniau busnes yn cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol drwy'r broses fonitro.

Mae GwE wedi datblygu cynllun ariannol tymor canolig sy'n adnabod y risgiau a all effeithio ar y lefelau ariannu, er enghraifft chwyddiant, newidiadau i gyfraniadau awdurdod lleol i gyllidebau craidd a lefelau cyllid grant. Mae'r cynllun yn nodi amrywiaeth o senarios ariannol yn seiliedig ar ragdybiaethau clir y gall GwE eu defnyddio i ymateb i'r heriau a nodwyd wrth gynllunio cyllidebau blynyddol. Mae'r awdurdod cyllid lletyol, ar y cyd â swyddogion GwE, yn adolygu'r cynllun mewn ymateb i wybodaeth berthnasol a allai effeithio ar y modelau ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag effaith negyddol y senarios hynny. Mae hyn yn helpu GwE i ymateb yn fwy strategol i newidiadau yn y cyllid gan ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol. Mae GwE yn datblygu cynllun gweithlu cydlynol sy'n cyd-fynd â chanlyniadau ei arolwg iechyd sefydliadol diweddar a chanfyddiadau arolwg sefydliad sy'n dysgu.

Yn ddiweddar, mae GwE wedi llunio polisi a fframwaith gwerth am arian priodol sy'n cysylltu'r adnoddau a ddefnyddir gyda'r canlyniadau a gyflawnwyd yn glir. Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau gwerth am arian yn dechrau gwreiddio trwy holl waith GwE. Mae uwch arweinwyr a gweddill y staff fel ei gilydd yn rhannu'r cyfrifoldeb o sicrhau gwerth am arian.

Mae'r fframwaith yn darparu arweiniad priodol i ddeiliaid cynlluniau busnes ar sut i gynnal asesiadau gwerth am arian. Ar hyn o bryd, nid yw ychydig o arfarniadau gwerth am arian yn cyfarch barn rhanddeiliaid nac yn cynnwys mesurau i anelu at weithredu mwy economaidd, effeithlon ac effeithiol.

O ganlyniad i ddatblygiad y polisi priodol, y fframwaith a lledaenu'r cyfrifoldeb, mae GwE bellach mewn sefyllfa well i asesu gwerth am arian.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai GwE barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.